# Crefftwyr Campus

Sialens Darllen yr Haf, Crefftwyr Campus

Gall plant fod yn greadigol gyda Crefftwyr Campus, Sialens Darllen yr Haf eleni.

Mae Sialens Darllen yr Haf yn weithgaredd gwyliau RHAD AC AM DDIM a gyfer plant. Mae'n ymwneud â darllen er hwyl, gan anelu i wella sgiliau darllen a hyder plant. Cynhelir y Sialens bob blwyddyn drwy gydol gwyliau'r haf, ac mae croeso i bob plentyn 4-11 oed gymryd rhan!

Gall plant ddarllen unrhyw beth yr hoffant (o ddifri – unrhyw beth!) a chasglu gwobrau am ddim am eu darllen. Y cyfan sy'n rhaid i chi wneud yw galw heibio eich llyfrgell lleol neu fynd i summerreadingchallenge.org.uk er mwyn cofrestru.

Mae Sialens eleni i gyd am fod yn greadigol. O ddawns i ddarlunio, modelu sbwriel i gerddoriaeth, mae rhywbeth i bawb! Gall plant ganfod pethau newydd i'w darllen yn cysylltiedig â'u holl gelf creadigol, a chael mynediad i weithgareddau am ddim yn y llyfrgell. Fedrwn ni ddim aros i fod yn greadigol!

Datblygwyd Sialens Darllen yr Haf gan The Reading Agency a chaiff ei chyflwyno mewn partneriaeth gyda llyfrgelloedd cyhoeddus. Cafodd thema eleni ei datblygu mewn partneriaeth gyda Create, elusen flaenllaw sy'n dod â'r celfyddydau creadigol i'r rhai sydd

fwyaf eu hangen. Cafodd y darluniau pwrpasol ar gyfer Crefftwyr Campus eu creu gan y darlunydd gwych, Natelle Quek.

Bydd y Sialens yn dechrau ddydd Sadwrn 22 Mehefin ar-lein ac mewn llyfrgelloedd ddydd Sadwrn 6 Gorffennaf 2024.

Darluniau Crefftwyr Campus gan Natelle Quek a © The Reading Agency 2024.

THE READING AGENCY | Dathlu creadigrwydd | Celebrating creativity | CREATE

monmouthshire sir fynwy